

Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Partneriaeth Feddygol Cross Hands
a'r Tymbl, Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 11 Mai 2023

Dyddiad cyhoeddi: 25 Awst 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	14
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	18
4.	Y camau nesaf	21
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	22
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	23
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	28

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bartneriaeth Feddygol Cross Hands a'r Tymbl, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 11 Mai 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC a dau adolygydd cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 58 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Daethom i'r casgliad bod staff practis meddygol Cross Hands a'r Tymbl yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth gofalgar, proffesiynol a chadarnhaol i'w cleifion. Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom staff yn siarad â chleifion a'u gofalgwyr mewn ffordd garedig a chymwynasgar.

Roedd amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd ar gael i gleifion yn yr ardal aros, y roedd y rhan fwyaf ohoni wedi'i harddangos yn ddwyieithog. Roedd trefniadau hefyd ar waith i gleifion a oedd yn dymuno cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond gwnaethom argymhell y dylai'r staff wisgo bathodynau 'laith Gwaith' er mwyn hysbysebu'r gwasanaeth hwn ymhellach.

Roedd y practis yn cynnig mynediad da, gyda maes parcio i gleifion, mynediad gwastad, system dolen sain a gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn wedi'i ddarparu gan y bwrdd iechyd lleol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i reolwr y practis ddarparu tystiolaeth bod sgriniau preifatrwydd wedi'u derbyn er mwyn sicrhau eu bod ar gael ym mhob ystafell drin
- Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod perthnasol o'r staff yn cwblhau hyfforddiant i weithredu fel hebryngwr, a bod yr hyfforddiant hwn yn parhau'n gyfredol bob amser.
- Dylai rheolwr y practis archebu bathodynau 'laith Gwaith' i bob aelod o staff sy'n siarad Cymraeg eu gwisgo.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y practis yn cynnig mynediad da, gyda maes parcio i gleifion, mynediad gwastad, dolen sain a gwasanaeth cyfieithu
- Roedd y staff yn cymryd camau rhagweithiol er mwyn cynnal hawliau cleifion, er enghraifft drwy drefnu i gleifion ag ASD ddod i apwyntiadau ar adegau tawelach a sicrhau eu bod yn defnyddio'r dewis enwau a rhagenwau wrth drin cleifion trawsryweddol.
- Roedd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC yn teimlo y gallent gael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Rhoddyd sicrwydd i ni fod cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol gan Bartneriaeth Feddygol Cross Hands a'r Tymbl. Roedd pob ystafell glinigol o faint priodol ac yn daclus ar y cyfan. Fodd bynnag, gwnaethom nodi peryglon amgylcheddol, yr oedd angen i'r practis fynd i'r afael â nhw ar unwaith er mwyn sicrhau diogelwch cleifion.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion. Roedd y rhain i gyd yn ddarllenadwy ac o ansawdd da. Wrth edrych ar asesiadau risg y practis, gwelsom fod angen datblygu asesiad risg amgylcheddol, asesiad risg iechyd a diogelwch, ac asesiad risg atal a rheoli heintiau ar gyfer y practis.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Roedd y llawr yn y toiledau i gleifion gwrywaidd yn anwastad iawn a dylid ei atgyweirio neu osod llawr newydd yn ei le
- Dylid gosod lloriau newydd yn y coridor ac ym mhob un o'r ystafelloedd ymgynghori er mwyn sicrhau bod modd eu glanhau'n ddigonol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid gwneud trefniadau i ymdrin â'r lleithder mewn ystafelloedd trin penodol ac i atgyweirio'r golau sydd wedi torri ar unwaith
- Rhaid cwblhau asesiad risg amgylcheddol, asesiad risg iechyd a diogelwch ac asesiad risg atal a rheoli heintiau ar gyfer y practis
- Rhaid sicrhau bod system larwm panig effeithiol a hygyrch ar waith ym mhob ystafell drin.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Wrth edrych ar gofnodion cleifion, gwelsom eu bod yn cael eu cadw i safon dda
- Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu cynhwysfawr a chyfredol ar waith yn y practis.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Ar sail trafodaethau â staff y practis, roedd yn amlwg eu bod yn ymrwymedig i ddarparu gofal da i gleifion ac yn awyddus i gyflawni eu rolau yn effeithiol.

Gwelsom dystiolaeth fod cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal a bod cofnodion yn cael eu cymryd. Roedd cofrestr polisiau gynhwysfawr ar waith yn y practis hefyd. Roedd pob polisi yn gyfredol ac ar gael yn hawdd i'r staff drwy yriant a rennir.

Gwnaethom nodi bod angen i'r practis wella agweddau ar y broses recriwtio a chydymffurfiaeth staff â hyfforddiant, a hynny ar unwaith.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Rhaid i wiriadau cyn cyflogi ar gyfer pob aelod newydd o staff gynnwys gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n briodol i'r rôl, a rhaid i ffeil pob aelod presennol o'r staff gynnwys gwiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Rhaid i hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol gael ei drefnu ar unwaith ar gyfer pob aelod o'r staff, a rhaid i dystiolaeth o'r hyfforddiant a gwblhawyd gael ei chadw yn ffeiliau'r staff.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r staff gwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol diweddaraf
- Rhaid i'r staff gwblhau archwiliad gwastraff clinigol ac archwiliad atal a rheoli heintiau ar gyfer y practis.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom dystiolaeth fod strwythur rheoli clir ar waith yn y practis.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Ar ddiwrnod yr arolygiad, siaradodd ein harolygwyr â chleifion hefyd er mwyn cael gwybod am eu profiadau yn y practis. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Gwasanaethau ar-lein i bob claf.”

“Mae'r gwasanaeth a geir yn dibynnu pwy sydd ar ddyletswydd a phwy y byddwch yn siarad â nhw/eu gweld”.

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Mae'n anodd iawn parcio yn aml, yn enwedig pan fydda i'n dod â'r plant.”

“Mae'r amseroedd aros i weld meddyg teulu yn rhy hir.”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod amrywiaeth eang o wybodaeth hybu iechyd ysgrifenedig ar gael i gleifion yn y practis.

Dywedodd y staff wrthym fod gwybodaeth hybu iechyd yn cael ei darparu gan y bwrdd iechyd lleol a sefydliadau trydydd sector. Roedd gwybodaeth o'r fath yn cael ei harddangos yn ardal aros y practis ac yn cael ei hyrwyddo drwy dudalen Facebook a gwefan y practis. Gallai'r staff hefyd hyrwyddo'r wybodaeth drwy ap MySurgery.

Dywedwyd wrthym fod y grŵp clwstwr meddygon teulu yn cyflogi presgripsiynydd cymdeithasol, a oedd yn gweithio yn y practis unwaith yr wythnos. Byddai'r unigol yn hwn yn cwrdd â chleifion ac yn eu cyfeirio at grwpiau cymunedol perthnasol, yn dibynnu ar anghenion y claf. Byddai'r presgripsiynydd cymdeithasol hefyd yn cynnal boreau coffi ddwywaith y mis i gleifion.

O blith y 58 o gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC, dywedodd 30 wrthym eu bod yn 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' fod gwybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos yn y practis. Fodd bynnag, roedd dau glaf yn anghytuno â'r datganiad hwn, atebodd pedwar drwy nodi 'ddim yn gymwys', a dewisodd 21 beidio ag ateb y cwestiwn hwn.

Dywedodd staff wrthym fod ffurflen bapur ar gael ar gyfer atgyfeiriadau ar gyfer podiatreg, y gellid ei chwblhau yn y practis. Dim ond drwy gwblhau ffurflen ar-lein y gellid gwneud atgyfeiriadau ar gyfer ffisiotherapi, ond byddai'r staff yn helpu cleifion i gwblhau'r ffurflen hon pe bai angen.

Dywedwyd wrthym am y broses a oedd ar waith i reoli rhaglen frechu'r gaeaf. Byddai neuadd leol yn cael ei llogi am ddeuddydd er mwyn brechu cynifer o bobl rhag y fflw a COVID-19 â phosibl. Byddai nyrsys hefyd yn rhyddhau prynhawniau i gynnal clinigau dal i fynnu pan fod angen. Dywedodd y staff wrthym y byddai cleifion yn cael galwadau ffôn a negeseuon testun, ac y byddai negeseuon yn cael eu rhannu ar gyfryngau cymdeithasol er mwyn hyrwyddo'r rhaglen frechu.

Gofal Urddasol a Pharchus

Gwelsom staff y dderbynfa yn croesawu cleifion mewn modd proffesiynol a chyfeillgar. Dywedodd y staff wrthym fod pob galwad yn cael ei chymryd yn y swyddfa weinyddol, a oedd wedi'i lleoli i ffwrdd o ddesg y dderbynfa. Roedd hyn yn sicrhau na allai cleifion yn yr ardal aros glywed unrhyw sgysiau ar ddamwain.

Teimlai'r rhan fwyaf o'r cleifion a atebodd y cwestiynau yn holiadur AGIC eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch (47/51) a dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a atebodd fod mesurau'n cael eu cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd (24/32). Ni wnaeth y cleifion a oedd yn weddill ateb y cwestiynau hyn.

Yn ystod ein taith o amgylch y practis gwelsom, er bod modd cloi pob ystafell drin, nad oedd sgriniau preifatrwydd yn rhai ohonynt er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas cleifion. Gwnaethom godi hyn gyda'r staff a gofyn am i sgriniau preifatrwydd gael eu gosod ym mhob ystafell drin cyn gynted â phosibl. Ers ein harolygiad, mae rheolwr y practis wedi cadarnhau bod sgriniau ychwanegol wedi'u harchebu, ond nid ydym wedi cael tystiolaeth bod y rhain wedi cyrraedd eto.

Rhaid i'r practis ddarparu tystiolaeth bod sgriniau preifatrwydd wedi'u derbyn er mwyn sicrhau eu bod ar gael ym mhob ystafell drin.

Gwelsom fod y practis yn cynnig gwasanaeth hebryngwr, a oedd yn cael ei hysbysebu'n glir i gleifion yn yr ardal aros. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym y bydd staff gweinyddol yn cael eu defnyddio fel hebryngwyr os nad oes staff clinigol ar gael, er nad yw'r staff gweinyddol wedi cael yr hyfforddiant priodol.

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod perthnasol o'r staff yn cwblhau hyfforddiant i weithredu fel hebryngwr, a bod yr hyfforddiant hwn yn parhau'n gyfredol bob amser.

Amserol

Gofal Amserol

Roedd Practis Meddygol Cross Hands a'r Tymbl ar agor rhwng 8am a 6:30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Gallai cleifion drefnu apwyntiad yn y feddygfa dros y ffôn neu yn bersonol wrth ddesg y dderbynfa.

O blith y cleifion a atebodd y cwestiynau yn holiadur AGIC, dywedodd tua hanner wrthym eu bod yn gallu cael apwyntiad ar yr un diwrnod pan fydd angen iddynt weld meddyg teulu ar frys (27/54) O blith y 50 o gleifion a atebodd, dywedodd 31 y gallent gael apwyntiad arferol pan fyddai angen un arnynt, a dywedodd tua hanner yr ymatebwyr eu bod yn cael cynnig yr opsiwn i ddewis y math o apwyntiad a oedd orau ganddynt (26/53). Ni wnaeth nifer o gleifion ateb pob un o'r cwestiynau hyn.

Dyma rai o'r sylwadau a gafwyd:

“Mae'r gwasanaeth a geir yn dibynnu pwy sydd ar ddyletswydd a phwy y byddwch yn siarad â nhw/eu gweld”.

“Mae'r amseroedd aros i weld meddyg teulu yn rhy hir.”

Byddai cleifion a oedd yn cysylltu â'r practis am apwyntiad yn cael eu sgrinio yn gyntaf gan aelod o dîm y dderbynfa. Byddai'r staff yn siarad â'r claf am y math mwyaf addas o apwyntiad iddo ac, yna, yn ei gyfeirio neu'n ei drosglwyddo fel y bo'n briodol. Dywedwyd wrthym fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar lywio gofal, ac roedd siart lif wedi'i lamineiddio wedi'i harddangos yn glir yn y swyddfa weinyddol er mwyn cyfeirio ati.

Dywedwyd wrthym fod cyfleoedd da i'r staff brysbennu anghlinigol siarad â'r staff clinigol pe baent yn ansicr ynglŷn â'r opsiynau gorau i glaf. Cadarnhaodd staff y dderbynfa fod cydberthynas dda rhwng staff clinigol a staff anghlinigol y practis.

Teg

Cyfathrebu ac Iaith

Dywedodd y staff wrthym am y dulliau cyfathrebu a ddefnyddir i rannu gwybodaeth â chleifion. Yn ogystal â siarad â chleifion wyneb yn wyneb, byddai'r staff yn eu ffonio ac yn anfon neges destun atynt i rannu gwybodaeth benodol pe bai angen, a byddai'r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn cael eu diweddar'u'n gyson.

Roedd yn amlwg bod y staff yn mynd ati i sicrhau bod anghenion cleifion unigol yn cael eu diwallu. Dywedodd rheolwr y practis wrthym y byddai'r staff bob amser yn ceisio cynnig apwyntiadau ar adegau tawelach i gleifion ag ASD. Byddai'r uwchymarferydd nyrsio hefyd yn cynnig ymweliadau cartref i gleifion mewn llety byw â chymorth. Dywedodd y staff wrthym hefyd am y trefniant i sicrhau bod claf byddar a'i blant bob amser yn gallu cael apwyntiad. Gallai'r unigolyn hwn anfon e-bost pan fyddai angen apwyntiad arno, a byddai'n cael cynnig apwyntiad wyneb yn wyneb ar yr un diwrnod, heb fynd drwy'r broses frysbenneu. Byddai'r un trefniant yn cael ei gynnig i'w blant.

Roedd y mwyafrif o'r wybodaeth i gleifion yn y practis ar gael yn ddwyieithog. Roedd dolen sain wedi'i gosod a dywedodd y staff wrthym y byddai dogfennau print bras yn cael eu darparu ar gais. Roedd gwasanaeth cyfieithu hefyd ar gael i'r practis drwy'r bwrdd iechyd lleol.

O blith y 14 o gleifion a gwblhaodd holiadur, dywedodd naw wrthym eu bod yn cael cynnig y cyfle i siarad Cymraeg yn ystod eu hapwyntiad. Teimlai'r mwyafrif o'r cleifion a atebodd y cwestiwn fod y meddyg teulu yn esbonio pethau'n dda iddynt ac yn ateb eu holl gwestiynau (44/52), bod y staff yn gwrando arnynt yn gyffredinol yn y practis (43/50).

Er y cadarnhawyd bod nifer o staff sy'n siarad Cymraeg yn gweithio yn y practis, ni welsom yr un ohonynt yn gwisgo bathodyn 'laith Gwaith' er mwyn i gleifion allu adnabod y staff sy'n siarad Cymraeg. Gwnaethom ofyn i reolwr y practis sicrhau bod yr unigolion perthnasol yn gwisgo'r bathodynau hyn yn y dyfodol.

Rhaid i'r practis ddarparu bathodynau 'laith Gwaith' i bob aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg.

Hawliau a Chydraddoldeb

Roedd mynediad da yn y practis. Roedd maes parcio am ddim dynodedig a gallai ceir stopio yn union y tu allan i'r prif ddrysau er mwyn i gleifion ag anawsterau symudedd allu mynd i mewn i'r adeilad yn hawdd. Roedd yr ardal aros a'r ystafelloedd trin yn fawr, ond oherwydd cynllun toiledau'r cleifion, nid oedd y rhain yn gwbl hygyrch.

Gwelsom dystiolaeth bod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cynhwysfawr ar waith, yn ogystal â pholisi atal gwahaniaethu ar sail oedran. Roedd y ddau ohonynt yn gyfredol ac wedi'u hadolygu yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd y practis yn cymryd camau rhagweithiol i barchu hawliau cleifion trawsryweddol. Gwelsom fod cleifion trawsryweddol yn cael eu trin mewn modd

sensitif, a chadarnhaodd y staff fod rhagenwau ac enwau a ffefrir bob amser yn cael eu defnyddio. Roedd y system cofnodion electronig yn nodi rhagenwau ac enwau a ffefrir cleifion trawsryweddol.

O blith y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC, teimlai 42 eu bod yn gallu cael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir, dywedodd chwech nad oeddent yn gallu cael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir, ac ni wnaeth naw ateb y cwestiwn hwn.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Gwelsom fod y practis yn lân ac yn daclus ar y cyfan. Teimlai pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur (37/37) fod y practis yn 'lân iawn' neu'n 'lân'.

Yn ystod ein taith o amgylch y lleoliad, gwelsom fod tâp wedi'i osod dros y llawr yn nhoiledau'r cleifion gwrywaidd, o ganlyniad i ddifrod. Er gwaethaf hyn, roedd y llawr yn dal yn anwastad iawn ac yn peri risg sylweddol i ddiogelwch cleifion. Hefyd, nid oedd unrhyw arwyddion wedi'u gosod i dynnu sylw cleifion at y difrod. Gwnaethom godi'r mater hwn fel pryder uniongyrchol â'r staff, gan fynnu bod mesurau'n cael eu rhoi ar waith ar unwaith i leihau'r risg.

Yn ystod ein taith o amgylch y practis, gwelsom hefyd fod problemau lleithder yn datblygu yn rhai o'r ystafelloedd trin. Roedd golau yn y swyddfa weinyddol wedi torri hefyd. Gwnaethom godi'r materion hyn gyda'r staff a gofyn am i gamau cael eu cymryd i fynd i'r afael â nhw cyn gynted â phosibl.

Rhaid i'r practis drefnu i'r problemau lleithder gael eu datrys ac i'r golau gael ei atgyweirio cyn gynted â phosibl.

Gwnaethom edrych ar gynllun parhad busnes y practis. Roedd y ddogfen hon yn gyfredol ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y practis yn cael rhybuddion diogelwch cleifion. Pan fyddai'r practis yn cael rhybuddion o'r fath, dywedodd y rheolwr wrthym eu bod yn cael eu rhannu'n briodol â'r staff drwy e-bost. Dywedwyd wrthym fod unrhyw rybuddion diogelwch cleifion a gafwyd yn cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd y tîm clinigol a bod unrhyw wersi a ddysgwyd o'r rhybuddion yn cael eu rhannu.

Wrth edrych ar asesiadau risg y practis, gwnaethom gadarnhau nad oedd asesiad risg amgylcheddol, asesiad risg iechyd a diogelwch nac asesiad risg atal a rheoli heintiau wedi'u cwblhau eto.

Rhaid i'r practis gwblhau asesiad risg amgylcheddol, asesiad risg iechyd a diogelwch ac asesiad risg atal a rheoli heintiau ar gyfer y practis ar unwaith.

Gwelsom nad oedd unrhyw ddull hygyrch ar waith er mwyn i'r staff allu galw am help ar frys. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi wynebu problemau gyda'r llinellau

ffôn yn y practis, lle nad ydynt yn cynnig larwm panic effeithiol mwyach. Dywedodd y staff wrthym eu bod wrthi'n trafod â darparwr y llinellau ffôn, a fydd yn darparu botwm panig.

Rhaid i'r practis sicrhau bod botymau panig ar gael yn yr ystafelloedd ymgynghori cyn gynted â phosibl.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

O blith y cleifion a gwblhaodd ein holiadur, dywedodd 29 wrthym fod hylif diheintio dwylo bob amser ar gael iddynt yn y practis, roedd tri yn anghytuno â hyn, ac ni wnaeth 23 ateb y cwestiwn hwn. At hynny, roedd 27 o gleifion yn cytuno bod y staff gofal iechyd yn golchi eu dwylo cyn ac ar ôl eu trin, dywedodd 5 nad oedd hyn yn berthnasol iddynt, ac ni wnaeth 26 o gleifion ateb y cwestiwn hwn.

Roedd sebon ar gael yn nhoiledau'r cleifion a'r staff. Gwelsom hefyd bosteri golchi dwylo wedi'u harddangos yn yr ardal aros ac arwyddion yn y toiledau. Roedd pob un o'r biniau yn y practis yn rhai a weithredir â throed, ac roedd yr arwynebeddau gwaith yn yr ystafelloedd clinigol ac anghlinigol wedi'u gwneud o ddeunydd y gellid ei sychu fel bod modd eu glanhau'n effeithiol. Gwelsom dystiolaeth bod rhestrau glanhau manwl ar waith. Roedd cwmni allanol yn gyfrifol am yr holl waith glanhau.

Er bod llawr caled addas yn y ddwy ystafell drin yn y practis, carped oedd yn yr ystafelloedd ymgynghori ac yn y coridor a oedd yn arwain at yr ystafelloedd clinigol. Roedd y carped yn yr ystafelloedd hyn yn peri risg o ran atal a rheoli heintiau, am ei bod hi'n anodd glanhau carped yn iawn, o gymharu â lloriau clinigol caled. Gwnaethom godi'r mater hwn fel pryder uniongyrchol â'r staff.

Wrth edrych ar gofnodion y staff, gwelsom fod diffyg dogfennaeth i ddangos brechiad rhag Hepatitis B. Cadarnhaodd y staff ar ddiwrnod ein hymweliad nad oedd unrhyw gofnod swyddogol ar waith i gofnodi'r wybodaeth hon. Ers ein harolygiad, mae rheolwr y practis wedi cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi darparu tystiolaeth o'i statws mewn perthynas â Hepatitis B neu wedi cael prawf gwaed i gadarnhau ei statws.

Rhaid i'r practis ddarparu tystiolaeth i AGIC fod cofnod ar waith sy'n dangos statws Hepatitis B pob aelod perthnasol o'r staff pan fydd canlyniadau prawf gwaed pob unigolyn wedi dod i law.

Rheoli Meddyginiaethau

Gellid gwneud ceisiadau am bresgripsiynau rheolaidd ar-lein drwy wefan y practis neu yn bersonol y practis. Roedd fferyllydd clinigol yn gweithio yn y practis hefyd, a allai ail-awdurdodi presgripsiynau rheolaidd pe bai angen.

Dywedodd y staff wrthym am y trefniadau a oedd ar waith i sicrhau bod padiau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel yn y practis. Caiff yr holl badiau hyn eu storio y tu hwnt i gyrraedd cleifion a'u cadw dan glo ar ddiwedd pob dydd. Pan fydd meddyg teulu yn gadael y practis, caiff y padiau presgripsiwn perthnasol eu darnio fel na ellir eu defnyddio yn y dyfodol.

Diogelu Plant ac Oedolion

Gwelsom dystiolaeth bod polisiau a gweithdrefnau diogelu cynhwysfawr ar waith yn y practis. Roedd siartiau llif clir hefyd ar waith i nodi unigolion sy'n wynebu risg.

Wrth edrych ar hyfforddiant ar ddiogelu, gwelsom ddiffyg cydymffurfiaeth ar gyfer rhai aelodau o staff y practis. Nid oedd aelodau o dîm y dderbynfa wedi cwblhau'r lefel ofynnol o hyfforddiant ar ddiogelu. Hefyd, dim ond hyfforddiant lefel 3 ar ddiogelu yr oedd yr arweinydd diogelu wedi'i gwblhau, yn hytrach na hyfforddiant lefel 4, fel sy'n ofynnol.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn cwblhau'r lefel o hyfforddiant ar ddiogelu sy'n berthnasol i'w rôl cyn gynted â phosibl.

Roedd system effeithiol ar waith yn y practis i fonitro cleifion nad ydynt yn dod i apwyntiadau. Cawsom hefyd dystiolaeth o waith effeithiol gan y tîm aml-ddisgyblaethol. Byddai cyfarfodydd aml-ddisgyblaethol misol yn cael eu cynnal â'r meddyg teulu arweiniol, y tîm gofal lliniarol a nyrsys ardal i drafod pecynnau gofal ar gyfer cleifion perthnasol.

Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol

Tîm nyrsio'r practis oedd yn gyfrifol am wirio dyfeisiau a chyfarpar. Ar ddiwrnod ein hymweliad, gwelsom fod yr holl ddyfeisiau a chyfarpar mewn cyflwr da ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Ar ddiwrnod ein hymweliad, gwelsom fod gwiriadau o gyffuriau a chyfarpar brys yn cael eu cwblhau'n fisol. Gwnaethom godi hyn gyda'r staff, gan nodi bod angen i wiriadau gael eu cynnal yn wythnosol. Ers ein harolygiad, mae'r staff wedi darparu tystiolaeth i ddangos bod gwiriadau wythnosol y cael eu cwblhau.

Roedd diffibriliwr allanol awtomataidd ar gael yn y practis, ynghyd â phadiau diffibriliwr i oedolion a chleifion. Gwelwyd bod hwn wedi'i wefru'n briodol ac yn barod i'w ddefnyddiol.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Roedd yn amlwg bod gan y practis dîm o staff ymrwymedig a gofalgaf a oedd yn ymdrechu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Roedd y practis yn sicrhau bod staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am arferion gorau, canllawiau cenedlaethol a phroffesiynol, a ffyrdd newydd o weithio. Byddai newidiadau i ganllawiau yn cael eu rhannu â'r staff drwy e-bost, gan ddefnyddio'r cyfleuster derbynneb i ddangos bod y staff wedi darllen y neges. Byddai gwybodaeth am newidiadau hefyd yn cael eu rhannu yn ystod cyfarfodydd staff misol. Gwelsom fod unrhyw ddiwyddiadau yn cael eu cofnodi drwy system Datix y GIG.

Dyweddodd yr uwch-aelodau o'r staff wrthym am y weithdrefn a oedd ar waith yn y practis ar gyfer atgyfeirio cleifion. Dywedwyd wrthym mai'r meddygon teulu oedd yn gyfrifol am lunio atgyfeiriadau, ac y byddai'r staff ysgrifenyddol wedyn yn eu blaenoriaethu'n briodol. Dywedwyd wrthym y byddai atgyfeiriadau rheolaidd yn cael eu hanfon yn electronig drwy Borth Cyfathrebu Clinigol Cymru. Dywedwyd wrthym yr ymatebwyd yn brydlon i atgyfeiriadau brys bob amser.

Cofnodion y Cleifion

Gwnaethom edrych ar sampl o 10 o gofnodion meddygol electronig y cleifion. Roedd y rhain yn cael eu storio'n briodol a'u diogelu rhag mynediad anawdurdodedig.

Wrth edrych ar gofnodion cleifion, gwelsom eu bod yn glir ac yn cael eu cadw i safon dda. Fodd bynnag, gwelsom fod angen i nifer o'r adolygiadau o feddyginiaethau gael eu diweddarau. Gwnaethom godi hyn gyda'r staff a gofyn am i'r rhain gael eu diweddarau ar unwaith.

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff yr holl adolygiadau o feddyginiaethau yng nghofnodion y cleifion eu diweddarau'n barhaus.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Mae Partneriaeth Feddygol Cross Hands a'r Tymbl yn rhan o ardal Clwstwr Amman Gwendraeth, ac mae'n eiddo i dri meddyg teulu ac yn cael ei gweithredu ganddynt. Roedd yn amlwg bod pob aelod o'r staff yn deall ei rôl a'i gyfrifoldebau'n llawn, a bod llinellau atebolrwydd clir ar waith yn y practis.

Gwelsom dystiolaeth bod cyfarfodydd staff wythnosol yn cael eu cynnal a bod cofnodion manwl yn cael eu cymryd. Byddai gwybodaeth hefyd yn cael ei rhannu â'r staff drwy grŵp WhatsApp, negeseuon e-bost, gohebiaeth ar lafar, a dogfennau wedi'u hargraffu, y byddai'r staff yn eu llofnodi ar ôl eu darllen.

Roedd y practis yn cadw cofrestr gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau. Roedd pob un o'r rhain yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n flynyddol, a gallai'r staff gael gafael arnynt yn hawdd drwy yriant a rennir. Byddai unrhyw newidiadau i bolisiau a gweithdrefnau'n cael eu rhannu â'r staff yn brydlon, naill ai'n ddigidol neu ar lafar, a byddai'n rhaid iddynt lofnodi i ddangos eu bod wedi darllen y ddogfen ddiwygiedig.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym am y rhaglenni ymgysylltu a llesiant a oedd ar gael i'r staff. Roedd gan bob un ohonynt fynediad i ap ffôn, a oedd yn cynnig gwasanaeth cwnsela a llinell ffôn 24/7 pe bai angen cymorth arnynt.

Dywedodd y staff wrthym mai'r prif heriau a phwysau a wynebwyd gan y practis ar adeg ein hymweliad oedd lefelau staffio a chadw meddygon teulu cyflogedig. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod swyddi'n cael eu hysbysebu'n rheolaidd.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Gwnaethom siarad â staff ar draws amrywiaeth o rolau a oedd yn gweithio yn y practis. Roedd yn amlwg bod pob un ohonynt yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gleifion.

Wrth edrych ar gofnodion y staff, gwelsom nifer o fylchau mewn hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff clinigol ac anghlinigol. Nid oedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelwch tân ac ni allai rhai aelodau o'r staff clinigol ddarparu tystiolaeth i ddangos eu bod wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau. Hefyd, nid oedd y staff wedi cwblhau unrhyw hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Gwnaethom godi hyn gyda rheolwr y practis a gofyn

am i bob aelod o'r staff gydymffurfio'n llawn â hyfforddiant gorfodol cyn gynted â phosibl.

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob y staff yn cydymffurfio'n llawn â hyfforddiant gorfodol.

Wrth edrych ar gofnodion y staff, gwelsom hefyd nad oedd hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol yr un aelod o'r staff yn gyfredol. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod sawl ymgais wedi'i gwneud i drefnu hyfforddiant ar gyfer staff drwy'r bwrdd iechyd lleol, ond na fu modd gwneud hynny. Gwnaethom godi'r mater hwn fel pryder uniongyrchol â'r staff, gan fynnu bod hyfforddiant yn cael ei drefnu ar unwaith.

Wrth edrych ar gofnodion y staff, gwelsom hefyd nad oedd gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ffeiliau'r mwyafrif o'r staff clinigol ac anghlinigol. Cadarnhaodd rheolwr cynorthwyol y practis nad oedd gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cwblhau fel mater o drefn cyn i reolwr presennol y practis ddechrau yn ei swydd ym mis Medi 2022. Dywedwyd wrthym fod cynlluniau ar waith i gyfarfod â phob aelod o'r staff er mwyn cael y dogfennau perthnasol i gwblhau ceisiadau am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ond nad oedd hyn wedi dechrau eto.

Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn teimlo'n gyfforddus i godi pryder pe bai angen. Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith yn y practis. Roedd hwn wedi'i adolygu'n ddiweddar ac ar gael i bob aelod o'r staff.

Diwylliant

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Roedd polisi a gweithdrefn cwynion priodol ar waith yn y practis. Roedd hyn yn unol â phroses Gweithio i Wella y GIG, a oedd wedi'i harddangos yn glir yn yr ardal aros.

Gwnaethom edrych ar ffeil cwynion y practis, a oedd yn cynnwys copïau o gwynion ysgrifenedig a llythyrau a anfonwyd i geisio eu datrys. Gwelsom yr ymdriniwyd â chwynion mewn modd cadarn ac yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt yn y polisi.

Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ceisio adborth gan gleifion drwy arolygon. Roedd copïau papur o'r rhain ar gael yn y practis ynghyd â fersiynau digidol drwy gyfryngau cymdeithasol. Cawsom gopi gan y staff o'r crynodeb diweddaraf o adborth gan gleifion, a gyhoeddir yn flynyddol. Dywedwyd wrthym y byddai cynllun

gweithredu yn cael ei lunio ar sail yr adborth a gafwyd, ynghyd â tharged i gwblhau pob cam gweithredu erbyn diwedd y flwyddyn.

Gwnaethom siarad â'r uwch-aelodau o'r staff am y trefniadau a oedd ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Ddyletswydd Gonestrwydd. Roedd polisi Dyletswydd Gonestrwydd ar waith yn y practis a oedd yn bodloni gofynion y canllawiau. Dywedwyd wrthym y byddai pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant er mwyn sicrhau eu bod yn deall y polisi a rolau a chyfrifoldebau'r staff yn llawn, ond nad oedd y cwrs hyfforddiant ar gael ar-lein o hyd. Rhoddodd rheolwr y practis sicrwydd i ni y byddai'n mynd ar drywydd hyn cyn gynted â phosibl.

Gwybodaeth

Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol

Gwelsom dystiolaeth bod systemau ar waith i sicrhau bod data a gwybodaeth o ansawdd uchel yn cael eu casglu, eu rhannu a'u cofnodi. Roedd y practis yn defnyddio 'Vision' ac roedd hefyd wedi'i gofrestru i ddefnyddio 'Access System' i gofnodi data. Dywedwyd wrth fod Swyddog Diogelu Data dynodedig ar gyfer y practis hefyd.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Wrth edrych ar yr archwiliadau a gynhaliwyd gan y practis, gwelsom nad oedd y staff wedi cwblhau archwiliad rheoli gwastraff nac archwiliad atal a rheoli heintiau ar gyfer y practis eto. Gwnaethom godi hyn gyda'r staff a gofyn am i'r rhain gael eu cwblhau cyn gynted â phosibl.

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff yr archwiliadau perthnasol eu cwblhau cyn gynted â phosibl.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu

Dywedodd y staff wrthym fod amryw gyfarfodydd amlddisgyblaethol yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau rhyngweithio ac ymgysylltu effeithiol â phartneriaid gofal iechyd. Dywedwyd wrthym fod y practis yn gweithio'n agos gyda'r clwstwr meddygon teulu er mwyn meithrin dealltwriaeth a rennir o'r heriau a wynebir yn y system ac anghenion y boblogaeth.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ar ddiwrnod ein hymweliad, gwelsom fod gwiriadau o gyffuriau a chyfarpar brys yn cael eu cwblhau'n fisol. Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan Gyngor Dadebru'r DU yn argymhell y dylid cynnal gwiriadau yn wythnosol o leiaf.	Roedd hyn yn golygu efallai na fydd cyfarpar a chyffuriau i'w defnyddio mewn argyfwng ar gael nac yn addas i'w defnyddio pan fydd eu hangen.	Gwnaethom godi hyn gyda'r staff, gan nodi bod angen i wiriadau gael eu cynnal yn wythnosol.	Ers ein harolygiad, mae'r staff wedi darparu tystiolaeth i ddangos bod gwiriadau wythnosol y cael eu cwblhau.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Partneriaeth Feddygol Cross Hands a'r Tymbl

Dyddiad yr arolygiad: 11/05/2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Yn ystod ein taith o amgylch y lleoliad, gwelsom fod tâp wedi'i osod dros y llawr yn nhoiledau'r cleifion gwrywaidd, o ganlyniad i ddifrod. Er gwaethaf hyn, roedd y llawr yn dal yn anwastad iawn ac yn peri risg sylweddol i ddiogelwch cleifion.	Dylid atgyweirio'r llawr yn nhoiledau'r cleifion gwrywaidd.	Mae arwyddion gweledol clir ar y drws a'r tu mewn i'r toiledau i ddangos bod y llawr yn anwastad. Mae'r staff yn ymwybodol bod yn rhaid i'r arwyddion gael eu harddangos bob amser. Aseiad risg wedi'i lunio a'i atodi. 8 Mehefin 2023 - anfonwyd e-bost at [golygwyd] yn gofyn am ddiweddariad - gofynnwyd i [golygwyd] gwblhau CYNNIG CYFALAF er mwyn atgyweirio'r llawr. Ni ellir rhoi cadarnhad	Rheolwr y Practis / Rheolwr Cynorthwyol y Practis	O fewn tri mis ar ôl i'r cyllid gael ei gymeradwyo. (Medi 2023)

		<p>pellach o ran y dyddiad dechrau.</p> <p>12 Mehefin 2023 - anfonwyd e-bost at [golygwyd] yn gofyn a ellid gwella'r atgyweiriad dros dro sydd ar waith ar hyn o bryd - cadarnhaodd [golygwyd] y bydd yr Adran Ystadau yn trefnu i rywun wella'r atgyweiriad dros dro sydd eisoes ar waith.</p> <p>Mae [golygwyd] yn cadarnhau y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau o fewn tri mis pan fydd y cyllid wedi'i gymeradwyo.</p>		
<p>Er bod llawr caled addas yn y ddwy ystafell drin yn y practis, carped oedd yn yr ystafelloedd ymgynghori ac yn y coridor a oedd yn arwain at yr ystafelloedd clinigol. Mae'r carped yn yr ystafelloedd hyn yn peri risg o ran atal a rheoli heintiau, am ei bod hi'n anodd</p>	<p>Dylid gosod llawr caled yn y coridor ac ym mhob un o'r ystafelloedd ymgynghori, er mwyn sicrhau bod modd eu glanhau'n ddigonol.</p>	<p>Anfonwyd e-bost at y Gwasanaethau Gwesty ar 9 Mehefin 2023 yn gofyn am gynllun glanhau trylwyr ar gyfer yr ardaloedd wedi'u carpedu - yn aros am ymateb.</p>	<p>Rheolwr y Practis / Rheolwr Cynorthwyol y Practis</p>	<p>O fewn tri mis ar ôl i'r cyllid gael ei gymeradwyo. (Medi 2023)</p>

<p>glanhau carped yn iawn, o gymharu â lloriau clinigol caled.</p>		<p>Cwblhawyd asesiad risg mewn perthynas â'r risg o haint, sydd wedi'i atodi.</p> <p>Mae'r staff clinigol yn ymwybodol o'r asesiad risg, ac mae gweithdrefnau ar waith.</p>		
<p>Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom edrych ar ffeiliau pob aelod o'r staff. Gwelsom nad oedd ffeiliau'r mwyafrif o'r staff clinigol ac anghlinigol yn cynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Cadarnhaodd rheolwr cynorthwyol y practis nad oedd gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cwblhau fel mater o drefn cyn i reolwr presennol y practis ddechrau yn ei swydd ym mis Medi 2022. Dywedwyd wrthym fod cynlluniau ar waith i gyfarfod â phob aelod o'r staff er mwyn</p>	<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod gwiriadau cyn cyflogi ar gyfer pob aelod o'r staff yn cynnwys gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n addas ar gyfer ei rôl.</p> <p>Rhaid i'r practis sicrhau bod ffeil pob aelod presennol o'r staff yn cynnwys gwiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.</p>	<p>O blith y 12 aelod o'r staff nad oes ganddynt wiriad cyfredol, mae angen i bump gwblhau ffurflenni a'u dychwelyd. Rwyf wedi gofyn am i bob un o'r ffurflenni hyn gael eu dychwelyd erbyn 19 Mehefin. Dylai'r holl ffurflenni gael eu hanfon i'w prosesu erbyn 23 Mehefin ac, yn seiliedig ar y cyfnod prosesu ar hyn o bryd, dylai pob tystysgrif fod wedi'i dychwelyd o fewn tri mis. Rwyf hefyd mewn cysylltiad â staff ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi pan fydd</p>	<p>Rheolwr Cynorthwyol y Practis</p>	<p>Cyn gynted â phosibl</p>

<p>cael y dogfennau perthnasol i gwblhau ceisiadau am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ond nad oedd hyn wedi dechrau eto.</p>		<p>tystysgrifau'n cael eu postio, ac ati.</p>		
<p>Wrth edrych ar gofnodion y staff, gwelsom nad oedd hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol yr un aelod o'r staff yn gyfredol.</p>	<p>Rhaid i reolwr y practis sicrhau y caiff hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol ei drefnu ar unwaith ar gyfer pob aelod o'r staff, ac y caiff tystiolaeth o'r hyfforddiant a gwblhawyd ei chadw yn ffeiliau'r staff.</p>	<p>Mae hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol wedi'i drefnu gyda Lifeline Training and Operations ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol am 4pm, ddydd Iau 8 Mehefin 2023 - mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn. Anfonwyd hyfforddiant e-ddysgu Practice Index ar gyfer staff gweinyddol drwy e-bost, gyda dyddiad cwblhau o 8 Mehefin. Cynllun - Bydd pob aelod o staff y practis wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol hwn erbyn 8 Mehefin.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>08/06/23</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Partneriaeth Feddygol Cross Hands a'r Tymbl

Dyddiad yr arolygiad: 11/05/2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Gwelsom nad oedd sgriniau preifatrwydd ym mhob un o'r ystafelloedd trin er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas cleifion.	Rhaid i'r practis ddarparu tystiolaeth bod sgriniau preifatrwydd wedi'u derbyn er mwyn sicrhau eu bod ar gael ym mhob ystafell drin.	Mae sgriniau preifatrwydd ar waith ym mhob ystafell drin.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
Dyweddod y staff wrthym fod y staff clinigol a'r staff gweinyddol yn gweithredu fel hebryngwyr pe bai angen. Fodd bynnag, dim ond y staff clinigol sydd wedi cael hyfforddiant priodol i wneud hyn.	Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod perthnasol o'r staff yn cwblhau hyfforddiant i weithredu fel hebryngwr, a bod yr hyfforddiant hwn yn parhau'n gyfredol bob amser.	Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant e-ddysgu neu ar fin gwneud hynny, ar wahân i bum unigolyn y disgwylir iddynt ei gwblhau erbyn 11 Awst. Mae hyfforddiant mewnol gan NyrS y Practis wedi'i drefnu ar gyfer 11 Awst.	Rheolwr y Practis	11 Awst 2023

Er bod nifer o'r staff yn siarad Cymraeg, nid oedd yr un ohonynt yn gwisgo bathodyn 'laith Gwaith' i ddangos hyn i gleifion.	Rhaid i'r practis ddarparu bathodynnau 'laith Gwaith' i bob aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg.	Mae pob aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg bellach yn gwisgo bathodyn 'laith Gwaith'.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
Yn ystod ein taith o amgylch y practis, gwelsom fod problemau lleithder yn datblygu mewn rhai o'r ystafelloedd trin. Roedd golau yn y swyddfa weinyddol wedi torri hefyd.	Rhaid i'r practis drefnu i'r problemau lleithder gael eu datrys ac i'r golau gael ei atgyfweirio cyn gynted â phosibl.	Rhoddwyd gwybod i'r Adran Ystadau am y lleithder ar 12 Mai ac nid yw'r broblem wedi'i datrys eto. (Mae asesiad risg wedi'i gwblhau) Mae goleuadau newydd wedi'u gosod.	Rheolwr y Practis	02/10/2023 Wedi'i gwblhau
Wrth edrych ar asesiadau risg y practis, gwnaethom gadarnhau nad oedd asesiad risg amgylcheddol, asesiad risg iechyd a diogelwch nac asesiad risg atal a rheoli heintiau wedi'u cwblhau eto.	Rhaid i'r practis gwblhau asesiad risg amgylcheddol, asesiad risg iechyd a diogelwch ac asesiad risg atal a rheoli heintiau ar gyfer y practis ar unwaith.	Mae'r holl asesiadau bellach ar waith.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
Gwelsom nad oedd unrhyw ddull hygyrch ar waith er mwyn i'r staff allu galw am help ar frys.	Rhaid i'r practis sicrhau bod botymau panig ar gael yn yr ystafelloedd ymgynghori cyn gynted â phosibl.	Rydym wedi gosod system larwm panig gan Vision ar bob cyfrifiadur personol ym mhob ystafell.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau

<p>Wrth edrych ar gofnodion y staff, gwelsom fod diffyg dogfennaeth i ddangos brechiad rhag Hepatitis B.</p>	<p>Rhaid i'r practis ddarparu tystiolaeth i AGIC fod cofnod ar waith sy'n dangos statws Hepatitis B pob aelod perthnasol o'r staff pan fydd canlyniadau prawf gwaed pob unigolyn wedi dod i law.</p>	<p>Mae pob aelod perthnasol o'r staff wedi cael prawf gwaed i ddangos ei imiwnedd. Nodwyd bod angen i ddau feddyg teulu gael brechiad atgyfnerthu ac mae apwyntiadau wedi'u trefnu ar gyfer y brechiadau hyn.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Wrth edrych ar hyfforddiant ar ddiogelu, gwelsom ddiffyg cydymffurfiaeth ar gyfer rhai aelodau o staff y practis.</p>	<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn cwblhau'r lefel o hyfforddiant ar ddiogelu sy'n berthnasol i'w rôl cyn gynted â phosibl.</p>	<p>Mae pob aelod o'r staff bellach wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol ar gyfer ei rôl. Nid ydym wedi llwyddo i ddod o hyd i hyfforddiant lefel 4 penodol ar gyfer ein Meddyg Teulu Arweiniol, ond mae wedi cwblhau hyfforddiant lefel 3, sydd gystal â'r practisau eraill yn ein Clwstwr.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Wrth edrych ar gofnodion cleifion, gwelsom fod angen i nifer o'r adolygiadau o feddyginiaethau gael eu diweddarau.</p>	<p>Rhaid i'r practis sicrhau y caiff yr holl adolygiadau o feddyginiaethau yng nghofnodion y cleifion eu diweddarau'n barhaus.</p>	<p>Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo'n barhaus ers COVID-19, ac rydym yn ymwybodol ei fod yn flaenoriaeth wrth symud ymlaen.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>01/11/2023</p>

		Penodwyd dau glerc presgripsiynau ac rydym yn gweithio tuag at rôl i nodi a threfnu apwyntiadau angenrheidiol er mwyn sicrhau y caiff adolygiadau eu cwblhau.		
Wrth edrych ar gofnodion y staff, gwelsom nifer o fylchau mewn hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff clinigol ac anghlinigol.	Rhaid i'r practis sicrhau bod pob y staff yn cydymffurfio'n llawn â hyfforddiant gorfodol.	Mae pob aelod o'r staff bellach wedi cwblhau hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol ac mae pob aelod o'r staff cwblhau'r hyfforddiant gorfodol neu wedi trefnu'r cyrsiau perthnasol i wneud hynny.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
Wrth edrych arnynt, gwelsom nad oedd y staff wedi cwblhau archwiliad rheoli gwastraff nac archwiliad atal a rheoli heintiau ar gyfer y practis eto.	Rhaid i'r practis sicrhau y caiff yr archwiliadau perthnasol eu cwblhau cyn gynted â phosibl.	Roedd yr archwiliad rheoli gwastraff eisoes ar waith ac mae archwiliad atal a rheoli heintiau wedi'i roi ar waith.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Emma Davies

Teitl swydd: Rheolwr Cynorthwyol y Practis

Dyddiad: 04 Awst 2023